20 Rhag 2024

Annwyl [GOLYGWYD],

Boed i chi a'ch holl gomisiynwyr gael gwyliau heddychlon. Boed i [GOLYGWYD] a'i holl dîm gael Nadolig da a hoe ar gyfer y flwyddyn newydd. Boed iddi fod yn un dda i chi i gyd. A fyddech mor garedig â chadw fy manylion personol - enw, cyfeiriad, ac ati - yn breifat. Hoffwn wneud rhai sylwadau ac awgrymiadau ar gyfer Etholaethau'r Senedd. Mae'n dda bod gennych chi enwau uniaith Gymraeg. Gyda Gwynedd a Maldwyn, a fyddai modd ychwanegu Glyndŵr? Mae'n rhan o'r etholaeth, ond nid yw'n ymddangos yn ei theitl. Mae'r un peth yn Gymraeg a Saesneg felly mae'n cyd-fynd yn dda â'r enwau uniaith. Mae tri enw i etholaethau eraill, er enghraifft Bangor Conwy Môn. O roi'r enwau yn nhrefn yr wyddor, byddai'n dod yn gyntaf, ond ni ddylai hynny atal / dileu ei ddefnydd. Gyda Merthyr Cynon Taf, nid yw yn nhrefn yr wyddor. Mae pwysigrwydd a / neu adnabyddiaeth yr enw yn cael blaenoriaeth. Pa bynnag drefn a ddewisir, dylid ei defnyddio drwyddi draw. Yn dibynnu ar y drefn, gallai Glyndŵr fod ar y diwedd. Wrth gwrs y dref fwyaf adnabyddus yw Port Talbot, sydd wedi bod yno ers ymhell dros 140 o flynyddoedd. Felly byddai'n dda ei chael yn y teitl fel Phort Talbot. Gallai fod yn gyntaf yn y teitl fel Merthyr ym Merthyr Cynon Taf. Mae Ogwr a'r Rhondda ill dau yn adnabyddus am fwy na'r afonydd - a dyna pam eu bod mor adnabyddus. Nid dyma'r achos ar gyfer Afan. Mae Port Talbot yn adnabyddus, ac felly'n well nag Afan. Yn etholaeth Blaenau Gwent Caerffili Rhymni, mae Rhymni yng Nghaerffili. Mae Caerffili yn rhan o Gwm Rhymni. Felly mae Rhymni yn ddigon. Felly Blaenau Gwent Rhymni. Mae hyn yn iawn gan y byddai enwau etholaethau Seneddol y DU yn cael eu defnyddio h.y. dyffryn neu cwm - cwm sydd orau/fwyaf adnabyddus. Felly nid yw Blaenau Gwent Cwm Rhymni - nid yw Caerffili'n cael ei dewis yn arbennig/ei phwysleisio'n arbennig o holl drefi'r cwm hwnnw. Gyda dwy etholaeth Caerdydd, mae angen addasu'r teitlau fymryn. Rydych wedi defnyddio De-ddwyrain i geisio cynnwys a dangos dwy etholaeth Seneddol y DU a ddefnyddir h.y. De Caerdydd a Phenarth, a Dwyrain Caerdydd. NID yw'n cynrychioli nac yn adlewyrchu'r etholaeth gyfan. Pan fyddwch chi'n dweud De-ddwyrain Caerdydd, nid ydych yn cynnwys yr etholaeth gyfan. Ble mae hynny'n gadael y De-orllewin? Wedi'i eithrio. Felly mae'n well, ac yn fwy cywir, dweud De Caerdydd - De Caerdydd a Phenarth. Ond os teimlir bod angen ei gwahaniaethu oddi wrth rai Senedd y DU yna gellid defnyddio'r gair Southern - Deheuol. Mae rhai ffynonellau yn nodi'r gair Cymraeg am Benarth fel 'Phenarth'. Felly byddai'r gair uniaith Gymraeg 'Phenarth' yn cael ei ddefnyddio. Felly naill ai De Caerdydd Penarth neu Deheuol Caerdydd Phenarth fel teitl ar gyfer yr etholaeth. Rydych wedi defnyddio'r gair Gogledd-orllewin i ddangos dwy etholaeth Senedd y DU a ddefnyddir, mae'r ddwy wedi'u cynnwys. Pan rydych chi'n dweud Gogledd - Orllewin, mae pobl yn meddwl am y pwyntiau cwmpawd a'r cwadrant mae'n cyfeirio ato. Hynny yw, yn defnyddio'r pwyntiau cwmpawd sy'n rhannu Caerdydd yn bedwar: GOrll, GDdw, DeDd, DeOrll. Felly dim ond hanner yr etholaeth mae Gogledd-orllewin Caerdydd yn ei gynnwys, nid yw'n cwmpasu'r cyfan - Gogledd-ddwyrain (na Gogledd Canolog mewn gwirionedd). Felly'r ateb cynhwysol, i gwmpasu'r etholaeth i gyd, yw Gogledd Caerdydd. Os teimlwyd bod angen gwahaniaethu oddi wrth Senedd y DU, dim problem - gellid defnyddio Gogleddol. Felly naill ai Gogleddol - Caerdydd neu Gogleddol Caerdydd fel teitl yr etholaeth. Os edrychwch chi ar y map NID yw De-ddwyrain yn cwmpasu'r etholaeth gyfan; NID yw Gogleddol-orllewin Caerdydd yn cwmpasu'r etholaeth gyfan. Ond nid yw De/Deheuol (Caerdydd) yn cynnwys yr etholaeth gyfan, tra bod Gogledd/Gogleddol yn cynnwys yr etholaeth gyfan.

Un o'r prif bethau sy'n ffurfio'r Gymru fodern yw'r prif ardaloedd cyngor. Dyma le mae pobl yn byw, yn gweithio a'r rhain sy'n darparu'r rhan fwyaf o'u gwasanaethau. Ac i'r rhain maen nhw'n

talu'r Dreth Gyngor. Felly i'r bobl, byddai'n well iddyn nhw pe bai'r rhain yn cael eu dilyn. Mae hefyd yn well i aelodau'r Senedd gan ei fod yn lleihau eu llwyth gwaith. Felly, dylid rhoi blaenoriaeth uchel iawn i'r rhain. Mae Canolbarth Cymru ar wahân i'r Gogledd neu'r De. Yn eich etholaethau'r Senedd, mae'r Canolbarth ar wahân i'r Gogledd neu'r De. Yn eich etholaethau'r Senedd mae Canolbarth Cymru wedi ei rhannu rhwng y Gogledd a'r De. Yn y bôn, Canolbarth Cymru yw Powys a Cheredigion. Powys yw prif ran y Canolbarth ac mae wedi'i rhannu gan ddwy etholaeth arfaethedig yn y Senedd. Ac felly'n "gwneud" Powys o ddwy etholaeth berthnasol Senedd y DU. Hynny yw, dod â Sir Drefaldwyn a Glyndŵr a Brycheiniog, Maesyfed a Chwm Tawe at ei gilydd i ffurfio etholaeth Powys yn y Senedd. Byddai'r arfordir gorllewinol yn cael ei ddwyn ynghyd gan Ddwyfor Meirionnydd a Phreseli Ceredigion yn dod at ei gilydd i ffurfio etholaeth Senedd Bae Aberteifi/Bae Ceredigion. Mae Powys yn cael ei gwasanaethu'n dda gan ffyrdd 'A' o'r Gogledd i'r De ac mae ganddi gysylltiadau da. Byddai etholaethau Caerfyrddin a Chanol a De Penfro yn Senedd y DU yn ffurfio etholaethau Senedd Caerfyrddin Penfro. Mae'r rhain wedi ffurfio etholaeth o'r blaen ac mae ganddynt gysylltiadau da gyda'i gilydd. Mae'r ddwy ardal yma'n cyd-fynd yn llawer gwell na Cheredigion, yn llawer gwell efallai. Mae mwy o gysylltiadau a mynd a dod rhwng y ddwy, ac ati. Byddai etholaethau Llanelli a Gŵyr y DU yn dod at ei gilydd i ffurfio etholaeth Senedd Llwchwr. Dyma'r afon sy'n rhedeg trwy'r ardal hon y mae trefi Llanelli a Llwchwr o boptu iddi. Enw posib arall yw Llanelli Llwchwr. Mae'r trefi hyn wedi'u cysylltu'n dda gan bont, ac nid yn bell, maen nhw'n agos at ei gilydd. Byddai etholaethau Gorllewin Abertawe, Castell-nedd a Dwyrain Abertawe yn y DU yn dod at ei gilydd i ffurfio etholaeth Senedd Abertawe Castell-nedd. Bydd hyn yn dod â holl Ddinas Abertawe at ei gilydd fel un, gyda thre Castell-nedd. Yn union fel rydych chi'n rhoi Dwyrain Casnewydd a Gorllewin Casnewydd ac Islwyn at ei gilydd i uno Dinas Casnewydd, sydd wedi'i groesawu'n fawr ac mae pawb yn meddwl bod hyn yn dda. Yn yr un modd, dod â Gorllewin Abertawe, a Chastell-nedd a Dwyrain Abertawe at ei gilydd i uno Dinas Abertawe. Felly byddai ail ddinas Cymru o fewn un etholaeth Senedd.

Felly mae uno etholaethau'r DU fel yr uchod yn ffurfio etholaethau'r Senedd sy'n gwasanaethu Canolbarth, De-orllewin a Gorllewin Cymru yn llawer gwell. Mae'n gwasanaethu Abertawe gyfan gyda'i gilydd - ein hail ddinas yng Nghymru. Mae'n gwasanaethu Powys gyfan gyda'i gilydd, ac yn rhoi llais i Ganolbarth Cymru sydd ar gyfer y Canolbarth yn unig. Does gan Ganolbarth Cymru ddim llais yn y cynnig presennol. Mae gan yr uchod fanteision a buddion dros y cynigion presennol ar gyfer yr un ardal. Ar ben hynny, mae Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin yn llawer gwell i Sir Benfro nag ydyw Ceredigion. Felly, mae pob un o'r uchod i gyd yn gwasanaethu'r ardaloedd yn well a bydd yn sicrhau canlyniadau gwell. Dylid nodi mai etholaeth arfaethedig Gwynedd Maldwyn sydd fwyaf anodd ei thrawsnewid ac nad yw'n ffurfio etholaeth gydlynol.

Rwy'n gobeithio y bydd yr awgrymiadau hyn o fudd.

Boed i'r comisiwn ystyried y cynnig/cynigion sy'n arwain at uno Dinas Abertawe mewn un etholaeth Senedd, a Phowys mewn un etholaeth sy'n rhoi llais i Bowys a'r Canolbarth. Bydd hyn i gyd yn rhoi cynrychiolaeth well i Gymru yn y Senedd. Dymunaf bob llwyddiant i chi yn eich gwaith a'ch ymdrechion.

A fyddech cystal â chadw fy ngwybodaeth – enw, cyfeiriad, ac ati – yn breifat a chyfrinachol.

Diolch.

Nadolig Llawen a blwyddyn newydd well i bawb.

Cofion cynnes [ADOLYGWYD].